# Y CYNGOR, 5.12.13

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dewi Owen (is-gadeirydd yn cadeirio).

**Y Cynghorwyr:** Lesley Day, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Aled Evans, Jean Forsyth, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, Chris Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Anne Lloyd Jones, Charles W.Jones, Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, John Wynn Jones, Llywarch Bowen Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Christopher O'Neal, Michael Sol Owen, W.Roy Owen, William Tudor Owen, Peter Read, Caerwyn Roberts, Liz Saville Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, Owain Williams, R.H.Wyn Williams, Robert J.Wright ac Eurig Wyn.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Morwena Edwards, Iwan Trefor Jones a Dilwyn Williams (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dilys Phillips (Swyddog Monitro / Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Nia Elis-Williams (Uwch Reolwr Busnes / Cefnogaeth Weithredol), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Nia Davies (Rheolwr Cynllunio – Polisi) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Stephen Churchman, Endaf Cooke, Anwen Davies, Edward Dogan, Gwynfor Edwards, Huw Edwards, Gweno Glyn, Simon Glyn, Jason Humphreys, Brian Jones, Linda Wyn Jones, Nigel Pickavance, John Pughe Roberts, Dyfrig Siencyn, Paul Thomas, Gethin Glyn Williams a Mandy Williams-Davies.

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Thomas Ellis.

## 1. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Medi, 2013 fel rhai cywir.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

'Roedd yr aelodau wedi derbyn nodyn briffio ymlaen llaw gan y Swyddog Monitro ynglŷn â'r eitemau canlynol:-

<u>Treth Cyngor: Disgresiwn i ganiatáu disgownt (eitem 11 ar y rhaglen</u>)

Eglurwyd bod yr eitem hon yn ymwneud â dau gategori o eiddo, sef:-
(a) ail-gartrefi (tai gwyliau) sy'n wag ond wedi eu dodrefnu; a
(b) thai sydd wedi bod yn wag a heb eu dodrefnu ers 6 mis neu fwy.

Cynghorwyd yr aelodau i ddatgan buddiant yn yr eitem a gadael y siambr os oedd ganddynt dŷ yng Ngwynedd sy'n disgyn i'r naill gategori neu'r llall, a'u bod yn talu treth cyngor arno, ac nid treth annomestig.

Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor (eitem 12 ar y rhaglen)

Cynghorwyd unrhyw aelod oedd yn cael ei effeithio gan y cynllun hwn, neu oedd ag aelod agos o'r teulu'n cael ei effeithio, i ddatgan buddiant personol.

'Roedd y Swyddog Monitro o'r farn y byddai'n deg i aelodau ddod i'r casgliad y gallent gymryd rhan yn y drafodaeth oherwydd nad oes gan y Cyngor fawr o ddisgresiwn ynglŷn â'r cynllun a bod penderfyniad diweddar Llywodraeth Cymru yn golygu na fyddai yna effaith ariannol ar unrhyw un.

Serch hynny, pwysleisiodd mai cyfrifoldeb pob aelod oedd penderfynu drosto'i hun os yw'r buddiant yn un fyddai'n ei rwystro rhag cymryd rhan yn y drafodaeth.

(a) Datganodd y Cynghorydd Sion Jones fuddiant personol yn eitem 7 ar y rhaglen – Cwestiwn yn ymwneud â Chartrefi Cymunedol Gwynedd - oherwydd ei fod yn denant i'r gymdeithas dai.

'Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a chymerodd ran lawn yn yr eitem.

(b) Datganodd y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones, Michael Sol Owen a John Wyn Williams fuddiant personol yn eitem 7 ar y rhaglen – Cwestiwn yn ymwneud â Chartrefi Cymunedol Gwynedd - oherwydd eu bod yn aelodau ar Fwrdd y gymdeithas dai.

'Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a bu iddynt gymryd rhan lawn yn yr eitem.

(c) Datganodd y Cynghorydd Angela Russell fuddiant personol yn eitem 7 ar y rhaglen – Cwestiwn yn ymwneud â Chartrefi Cymunedol Gwynedd – oherwydd bod ei merch yn aelod ar Fwrdd y gymdeithas dai.

'Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a bu iddi gymryd rhan lawn yn yr eitem.

(ch) Datganodd y Cynghorwyr Thomas Ellis ac Owain Williams fuddiant personol yn eitem 11 ar y rhaglen - Treth Cyngor: Disgresiwn i Ganiatáu Disgownt – oherwydd eu bod yn berchen ar dai gwag.

'Roedd yr aelodau o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

(d) Datganodd y Cynghorydd Aeron M.Jones fuddiant personol yn eitemau 11 a 12 ar y rhaglen – Treth Cyngor: Disgresiwn i Ganiatáu Disgownt a Chynllun Gostyngiadau Treth Cyngor – oherwydd ei fod wedi derbyn cyfnod di-dreth gan y Cyngor.

'Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(a) Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-
Y Cynghorydd R.H.Wyn Williams a'r teulu ar golli ei chwaer yn ddiweddar.

Teulu'r cyn-Gynghorydd T.Islwyn Morris, Penrhyndeudraeth, fu'n Gadeirydd ar yr hen Sir Gwynedd.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am eraill o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

(b) Gwellhad Buan

Dymunwyd gwellhad buan i'r Cadeirydd, y Cynghorydd Huw Edwards.

(c) Llongyfarchiadau

(i) Adroddwyd bod y Gwasanaeth Eiddo wedi ennill gwobr genedlaethol Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru am ddatblygiad Ysgol yr Hendre, Caernarfon. Enillwyd y categori Gwerth Gorau ar y sail bod y datblygiad wedi cynnig gwerth am arian a hefyd buddiannau economaidd i'r ardal leol. Llwyddwyd i sicrhau bod 83% o'r llafur a ddefnyddiwyd ar y safle wedi dod o Gymru a 71% o'r cyflenwyr wedi eu lleoli o fewn 20 milltir i'r safle.

Yn dilyn y llwyddiant ar lefel Cymru, aethpwyd ymlaen i'r rownd Brydeinig ac unwaith eto bu'r datblygiad yn llwyddiannus gan ragori ar gynlluniau o bob cwr o'r Alban a Lloegr.

(ii) Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd wedi ennill pum gwobr yng Ngwobrau Mawreddog Gofal Cymru 2013.

Eleni, 'roedd y Gwobrau Gofal Cenedlaethol yn dathlu eu 11eg blwyddyn gyda seremoni arbennig yng Nghaerdydd. 'Roedd y Gwobrau Gofal Cymdeithasol yn cydnabod ac yn dathlu ymroddiad gan unigolion gweithgar ym maes gofal cymdeithasol. Llongyfarchwyd Selwyn Lloyd Jones, Gwen Hughes, Ann Lane, Jan Atherton ac Andre a Shan Dyke o'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol.

(ch) Cyffredinol

Atgoffwyd yr aelodau bod angen iddynt lenwi'r holiadur am Raeadr, y bwletin gwybodaeth i aelodau. 'Roedd copi electroneg o'r holiadur ar gael yn y rhifyn diwethaf o Raeadr.

## 4. CWESTIYNAU

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Sion Jones**

"Mae Cynghorwyr Gwynedd, ac yn bwysicach, tenantiaid Cartrefi Cymunedol Gwynedd, yn darganfod rhwystredigaethau hefo gwasanaeth a gweithrediad Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Beth mae'r Aelod Cabinet yn ei wneud i sicrhau gwelliannau o fewn cymdeithas dai Cartrefi Cymunedol Gwynedd?"

**Ateb gan y Cynghorydd John Wyn Williams, Aelod Cabinet Cynllunio**

"Mae natur perthynas y Cyngor gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd wedi ei amlinellu yn y ddogfen drosglwyddo ac mae sawl llwybr yn agored i aelodau allu cyfeirio anawsterau a rhwystredigaethau.

Mae 4 aelod o'r Cyngor yn gwasanaethu ar Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd, ynghyd ag 8 aelod arall, sef 4 annibynnol a 4 o blith y tenantiaid, sydd wedi'u henwebu gan y tenantiaid eu hunain, ac sy'n cael cefnogaeth gan y Ffederasiwn Tenantiaid, ayb. Hefyd, mae hawl gan unrhyw aelod etholedig i gyfeirio neu drafod materion yn uniongyrchol gyda'u cyd-aelodau.

Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd wedi sefydlu llinell ffôn benodedig ar gyfer ymdrin â chwynion gan aelodau etholedig. Mae'r llinell ffôn hon wedi ei sefydlu i amlygu ac i geisio cael datrysiad i gwynion ac mae modd cael cyswllt uniongyrchol gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Cwsmer.

Mae yna hefyd Gyfarfodydd Monitro Chwarterol. Mae'r cynrychiolwyr o'r Cyngor yn cyfarfod yn chwarterol gyda CCG i fonitro cynnydd yn erbyn y 170 o addewidion yn y ddogfen gynnig wreiddiol. 'Rwyf innau'n mynychu'r cyfarfodydd hyn bob 6 mis fel bod yna fewnbwn gwleidyddol. Cyn bob cyfarfod mae gwahoddiad drwy e-bost i aelodau ddwyn sylw at anawsterau a'r problemau maent wedi eu hwynebu. Mae'r materion yma yn cael eu trafod yn y cyfarfod monitro ac ymateb yn cael ei baratoi i'r aelod. Yn arferol bydd rhyw hanner dwsin o faterion yn cael eu hystyried bob chwarter. 'Rydym yn dweud wrth aelodau bod yna fonitro chwarterol yn dod cyn hir ac iddynt roi gwybod am unrhyw broblemau.

Hefyd, mae yna Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor fel rhan o'r cytundeb. Y llynedd, cafodd ei anfon i'r pwyllgor craffu gyda'r bwriad y byddai gan y pwyllgor craffu fwy o amser i drafod a holi a bu'r mater gerbron y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 15 Hydref.

Yn ogystal â'r trefniadau uchod mae gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd hefyd drefniadau mewnol o ran ymdrin â chwynion a threfniadau allanol o ran monitro perfformiad."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Sion Jones**

"Fedrwch chi sicrhau bod gwelliannau sylweddol yn cael eu gwneud o ran Cartrefi Cymunedol Gwynedd cyn gynted â phosib'?"

**Ateb gan y Cynghorydd John Wyn Williams, Aelod Cabinet Cynllunio**

"Mae yna broblemau, wrth gwrs, fel ymhob cymdeithas, o gofio faint o dai sy'n cael eu gwella bob wythnos. Mae yna broblemau, ac mae yna rai problemau na ddylai fod, ond 'rwy'n trafod y problemau a'r ffordd o'u datrys yn rheolaidd gyda Ffrancon Williams, y Prif Weithredwr, fel mae gan bob aelod arall o'r Bwrdd yr hawl i'w wneud, wrth gwrs. Nid ydym yn medru datrys pob un, ond 'rwy'n cymryd hyn o ddifri' a byddaf yn parhau i wneud hynny hyd ddiwedd y broses."

## 5. CYFLWYNIAD GAN YR AELOD CABINET AMGYLCHEDD

Derbyniwyd cyflwyniad PowerPoint gan y Cynghorydd W.Gareth Roberts, Aelod Cabinet Amgylchedd, ar y meysydd gwaith penodol y mae'n gyfrifol amdanynt, sef Ymgynghoriaeth Gwynedd, Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd yn yr Adran Rheoleiddio.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau neu gynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif faterion a ganlyn:-

(i) Cyfeiriwyd at ddiffygion yn y rhwydwaith bysus. Atebodd yr Aelod Cabinet y gwneid pob ymdrech i sicrhau'r cysylltiadau, ond petai'r Cyngor yn gwario mwy ar hyn, byddai'n rhaid torri'n rhywle arall. 'Roedd yn cytuno nad oedd pwrpas rhedeg gwasanaethau unffordd, ond ni chredai bod hynny'n digwydd yn gyffredinol. Nododd hefyd fod angen i bobl ddefnyddio'r bysus, neu ni fydd y gwasanaeth ar gael. Unwaith y byddai'r adolygiad bysus wedi'i gwblhau yn Arfon a phopeth ar yr un lefel ar draws y sir, gellid edrych lle mae unrhyw ddiffygion. Ychwanegodd ei fod wedi gofyn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau edrych ar y matrics fydd yn cael ei ddefnyddio i flaenoriaethu llwybrau bws a gofynnodd i'r aelodau ddod ag enghreifftiau penodol o ddiffygion i'w sylw.

Pwysleisiwyd yr angen i gymryd twristiaeth i ystyriaeth wrth gynllunio'r matrics gan fod rhai bysus yn llawn yn yr haf, ond yn wag yn y gaeaf. Atebodd yr Aelod Cabinet mai dyna oedd bwriad y matrics.

Mynegwyd pryder y byddai'r holl doriadau i drafnidiaeth gyhoeddus yn ynysu'r mwyaf bregus o fewn cymdeithas a phwysleisiwyd bod dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod y bobl hynny yn gallu cyrraedd y gwasanaethau. Mewn ymateb, cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at rai cynlluniau cludiant cymunedol oedd yn weithredol yn y sir eisoes, megis 'O Ddrws i Ddrws', ynghyd â chynlluniau i gyfuno gwasanaethau bysus ysgol a chyhoeddus, gan nodi y bydd angen rhagor o gynlluniau o'r fath yn y dyfodol.

Nodwyd y dylai unrhyw fysus mini sy'n cael eu defnyddio i bwrpas cludiant cymunedol fod â llawr isel er mwyn hwyluso mynediad iddynt.

(ii) Nodwyd, er bod y Cyngor hwn wedi cyrraedd y targed ailgylchu, bod cynghorau eraill cyfagos yn perfformio ychydig yn well, a holwyd a oedd yna gynllun i edrych ar beth mae'r cynghorau hynny'n ei wneud a'r gwersi i'w dysgu o hynny? Atebodd yr Aelod Cabinet fod perfformiad y Cyngor hwn erbyn Mawrth eleni yn 51.52%, o gymharu â'r targed o 52%. Nododd fod y bobl sy'n ailgylchu yn gwneud hynny'n arbennig o dda, ond bod eraill yn anwybyddu'r peth yn ei gyfanrwydd, ac 'roedd hynny'n hynod siomedig. 'Roedd y Cyngor wedi gwarantu 7,500 o dunelli o fwyd i GwyriAD bob blwyddyn, ac yn talu am hynny o fwyd, ond 4,500 tunnell yn unig oedd yn cael ei gasglu ar y funud, gyda 25% o'r holl fwyd yn dal i fynd i'r biniau gwyrdd. Golygai hynny bod y Cyngor yn talu i GwyriAD am y 3,000 tunnell arall yn ogystal â thalu iddo fynd i dirlenwi, ac wrth i'r targedau ailgylchu gynyddu, 'roedd lwfans tirlenwi'r Cyngor yn gostwng. Gan hynny, byddai'n rhaid ystyried mesurau newydd i orfodi pobl i ailgylchu ac efallai y byddai yna ddirwyo ar ddiwedd y dydd.

(iii) Mynegwyd pryder ynglŷn â'r bwriad i symud i drefn o gasglu'r biniau gwyrdd bob tair wythnos a holwyd beth oedd o'i le gyda'r hen drefn o wagio'r biniau'n wythnosol. Nodwyd hefyd bod trefniadau casglu'r amrywiol finiau / bocsys yn hynod gymhleth bellach.

(iv) Holwyd sut y gellid cyfiawnhau gwario £237,000 ar doiledau ym Morfa Bychan tra bo toiledau eraill ar draws y sir mewn cyflwr gwael. Mewn ymateb, eglurodd yr Aelod Cabinet fod y cynllun hwn wedi ei gyllido drwy arian grant a bod y swyddogion wedi bod yn hynod ddyfeisgar yn sicrhau'r grant yma. Nododd ymhellach, er bod nifer toiledau'r Cyngor wedi gostwng o 94 yn 2008 i 78 erbyn hyn, y sefydlwyd 36 o doiledau cymunedol ar draws y sir o ganlyniad i dderbyn grant gan y Llywodraeth i dalu i fusnesau agor eu toiledau i'r cyhoedd.

Nodwyd y derbynnid bod arian yn brin, ond nid oedd rhai o'r toiledau angen llawer mwy na chot ffres o baent. Nodwyd hefyd y dylai'r toiledau fod yn agored drwy gydol y flwyddyn. Mewn ymateb, eglurodd yr Aelod Cabinet fod yna lawer o gostau ynghlwm â chadw toiledau'n agored a'r nod oedd ceisio cadw'r rhai sydd â'r mwyaf o ddefnydd ohonynt yn agored y mwyaf o'r amser.

Nodwyd bod Gwynedd yn dibynnu'n helaeth ar dwristiaeth, ond nad oedd yn darparu toiledau addas ar gyfer ymwelwyr â'r ardal. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet fod gan Wynedd fwy o ddarpariaeth toiledau na bron i bob un sir arall. Ychwanegodd y Cadeirydd y dylid llongyfarch y cynghorau plwyf am gymryd toiledau drosodd a'u rhedeg.

(v) Holwyd beth oedd wedi digwydd i'r £80,000 a glustnodwyd ar gyfer biniau baw cŵn. Mewn ymateb, eglurodd yr Aelod Cabinet fod y wardeiniaid yn targedu gwahanol ardaloedd, ond bod hon yn dasg i'r gymuned gyfan, ac nid i Gyngor Gwynedd yn unig. Nododd hefyd nad diffyg biniau oedd y broblem, eithr agwedd rhai pobl ac 'roedd yn amhosib' cael digon o swyddogion i fynd ar ôl y lleiafrif yma.

Cytunwyd y byddai'r aelodau'n derbyn copi electronig / papur o gyflwyniad yr Aelod Cabinet.

Diolchwyd i'r Aelod Cabinet Amgylchedd am ei gyflwyniad.

## 6. STRATEGAETH ARIANNOL 2014/15 – 2017/18

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau adroddiad yn nodi'r sefyllfa o ran y gostyngiad grant sylweddol fydd yn taro'r Cyngor yn 2014/15 ac yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo strategaeth lefel uchel ar gyfer dygymod â'r darlun ariannol newydd sy'n ei wynebu.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau neu gynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif faterion a ganlyn:-

(i) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â dibynadwyedd y ffigurau ar derfyn y rhagolygon ariannol yn y tabl ym mharagraff 3 o'r adroddiad, atebodd Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y ffigurau yn ddibynadwy, i'r graddau bod gallu proffesiynol staff yr Adran Gyllid a'i allu proffesiynol yntau yn caniatáu hynny. Atgoffodd yr aelodau fod y Cyngor wedi mabwysiadu'r tabl hwn ym mis Chwefror, a chredid bryd hynny, ar sail gwybodaeth gadarn oedd ar gael ar y pryd, y byddai grant y Llywodraeth i'r Cyngor £500,000 yn ychwanegol yn 2014/15. Fodd bynnag, wyth mis yn ddiweddarach, 'roedd y grant yn gostwng cyfwerth ag £8.3m. 'Roedd hynny'n dangos bod y sefyllfa'n gallu newid yn sylweddol a byddai'r strategaeth 4 blynedd nesaf, fyddai'n cael ei chyflwyno i'r Cyngor ym mis Mawrth, yn dra gwahanol i hyn ac yn dra gwaeth, nid yn unig oherwydd y byddai'r grant gymaint yn is nag a dybid ym mis Chwefror, ond hefyd oherwydd bod yna dybiaethau yma ynglŷn â chodiadau cyflogau. 'Roedd y swyddogion yn gwneud eu gorau i amgyffred o brofiad y gorffennol beth sy'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol, ond ni ellid byth gael sicrwydd o 100% gan fod yna ffactorau sydd y tu allan i reolaeth y Cyngor.

(ii) Gofynnwyd a oedd yna fwriad i ddefnyddio balansau a reserfau ar gyfer 2014/15, ac os felly, beth fyddai'r ganran? Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau fod lleihau gwariant ar y raddfa a ragwelir yn golygu lleihau'r gweithlu. Golygai hynny ddiswyddo a thaliadau diswyddo, ac i ariannu hynny, byddai'n rhaid defnyddio balansau neu gyflwyno rhagor o doriadau. Gan nad oedd yr ail opsiwn yn gwneud

synnwyr economaidd, 'roedd yn hanfodol cael digon o falansau i gario'r Cyngor drwodd, ac felly ni ddylid defnyddio gormod arnynt. Ychwanegodd mai'r bwriad oedd defnyddio £1.5m o'r balansau petai raid, ond rhybuddiodd nad oedd defnyddio balansau yn gwneud dim ond osgoi gorfod gwneud penderfyniad anodd am flwyddyn.

Mewn ymateb i ymholiad pellach, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod £1.5m yn tynnu at 20% o'r balansau.

Gofynnwyd a oedd 20% ychydig yn isel, o ystyried y lleihad yn y setliad? Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mai ei farn broffesiynol ef a'r Pennaeth Cyllid oedd bod y Cyngor yn wynebu siwrne dymhestlog, a phe defnyddid gormod o'r balansau, ni fyddai yna arian ar gael i dalu'r taliadau diswyddo y bydd yn rhaid eu talu. Gan hynny, 'roedd yn argymell yn gryf na ddylid mynd yn rhy bell oddi wrth yr £1.5m neu byddai'n rhaid torri mwy ar y gwasanaethau, a thra bo'r balansau ar gael, gellid defnyddio hynny er mwyn gwarchod gwasanaethau yn y pen draw.

Nodwyd ei bod yn amser caled ar drigolion Gwynedd hefyd, ac ym mis Mawrth byddai'r Cyngor yn wynebu codi'r Dreth Cyngor eto, yn hytrach na defnyddio balansau.

Nododd yr Arweinydd fod cynghorau yn chwilio am arbedion ar fyrder ymhob twll a chornel, ond 'roedd y Cyngor hwn wedi osgoi hynny drwy gynllunio gofalus o flwyddyn i flwyddyn, gan gymryd agwedd hir dymor. 'Roedd hyn yn rhoi Gwynedd mewn gwell sefyllfa i reoli lefel ei Dreth Cyngor. O ran lefelau balansau, 'roedd y Cyngor hwn yn dilyn cyngor ac arweiniad Swyddfa Archwilio Cymru ac 'roedd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth wedi datgan ei bod yn fodlon gyda lefelau balansau a strategaeth ariannol Cyngor Gwynedd.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Llunio rhaglen newydd o arbedion ar gyfer y cyfnod 4 blynedd i ddod sydd yn seiliedig ar gael yr ardrawiad lleiaf posibl ar ganlyniadau i bobl Gwynedd i'w gweithredu o ddiwedd 2014/15 ymlaen.**

**(b) Er mwyn prynu'r amser angenrheidiol i lunio rhaglen o arbedion ystyrlon a synhwyrol, y dylid defnyddio gweddill y rhaglen arbedion bresennol ynghyd â chyfres o gamau eraill, gan gynnwys defnyddio elfen o falansau (dyweder tua £1.5m) i greu cyllideb gytbwys yn 2014/15.**

## 7. CYNLLUN STRATEGOL DIWYGIEDIG

Cyflwynodd yr Arweinydd ei adroddiad yn cynnig awgrymiadau penodol ynglŷn â diwygio cynnwys y Cynllun Strategol ar gyfer y gweddill o 2013-14 yng ngoleuni'r heriau newydd sy'n wynebu'r Cyngor. Gan gyfeirio at yr awgrym i ddileu blaenoriaeth AMG 3 – Ymateb i Fygythiadau Newid Hinsawdd, a'r 3 prosiect cysylltiedig, nododd fod llawer o aelodau wedi datgan eu pryder y gallai hynny greu canfyddiad nad yw'r maes hwn yn ystyriaeth lefel uchel gan y Cyngor, ac o'r herwydd 'roedd yn argymell na ddylid dileu'r flaenoriaeth yma o'r Cynllun Strategol.

Ymddiheurodd nad oedd y Cabinet wedi gofyn am farn yr holl aelodau cyn llunio'r cynigion terfynol a chadarnhaodd y byddai hynny'n rhan o'r broses y flwyddyn nesaf.

**PENDERFYNWYD cytuno i'r awgrymiadau isod ynglŷn â diwygio cynnwys y Cynllun Strategol ar gyfer 2013/14 a mabwysiadu'r fersiwn diwygiedig o'r Cynllun Strategol.**

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **GOF3 - AMDDIFFYN PLANT AC OEDOLION** |
| **Newid** | **Dileu'r cynnig cyflawni: *Byddwn hefyd yn datblygu cynigion er mwyn sefydlu natur sefyllfa Amddiffyn Oedolion yng Ngwynedd trwy gynnal adolygiad*.** |
| **Rheswm Dros y Newid** | **Oherwydd y sefyllfa gyllidol heriol ni ddaeth y prosiect yma i'r categori uchel yn rhestr yr ail-flaenoriaethu nodwyd gan y Cabinet. Bydd y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion yn cymryd trosolwg o waith amddiffyn oedolion o fewn y Sir.** |

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **ECON1 - CRYFHAU GWYTNWCH BUSNESAU A CHADW'R BUDD YN LLEOL** |
| **Newid** | **Dileu y 'Prosiect Tyfu Busnesau Cynhenid' a'r Mesuryddion cysylltiedig.** |
| **Rheswm Dros y Newid** | **Oherwydd y sefyllfa gyllidol heriol ni ddaeth y prosiect yma i'r categori uchel yn rhestr yr ail-flaenoriaethu nodwyd gan y Cabinet. Mae gwaith 2013/14 yn agos at ei gwblhau ac at gyflawni'r addewidion nodir yn y Cynllun Strategol ar gyfer y flwyddyn, ond nid oes adnoddau na chapasiti digonol i'r prosiect barhau yn 2014-17.** |

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **ECON1 - CRYFHAU GWYTNWCH BUSNESAU A CHADW'R BUDD YN LLEOL** |
| **Newid** | **Dileu'r gwaith datblygu cynigion ar gyfer canol trefi a'r maes olyniaeth busnes.** |
| **Rheswm Dros y Newid** | **Nid yw'r sefyllfa gyllidol yn caniatáu ymestyn adnoddau i ddatblygu'r gweithgareddau yma. Bydd gwaith i ddatblygu cynigion ar gyfer cefnogi busnesau traddodiadol y sir trwy gyfnod anodd yn parhau i ddigwydd trwy sylw i e. fusnes ac e. fasnachu, Cerdyn Prynu Lleol Gwynedd a Phrosiect Yma Mae Pethau yn Digwydd.** |

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **AMG1 - HYBU CYFLENWAD ADDAS O DAI AR GYFER POBL LEOL** |
| **Newid** | **Newid uchelgais y 'Prosiect Tai Gwag Nôl i Ddefnydd' o safbwynt y nifer o unedau tai gwag a ddaw nôl i ddefnydd yn ystod 2013-14 o 95 i 54. Yn ogystal, mae cymal wedi ei ychwanegu i nodi y bydd arian wedi ei neilltuo i ddod â 10 o unedau tai gwag ychwanegol yn ôl i ddefnydd yn ystod y Chwarter 1af o 2014-15.** |
| **Rheswm Dros y Newid** | **Mae'r uchelgais wedi ei addasu i adlewyrchu lefel yr adnoddau sydd wedi eu neilltuo i'r prosiect. Mae'r cymal ychwanegol wedi ei gynnwys gan y bydd gwaith paratoadol yn digwydd yn y misoedd nesaf ond na fydd modd** |

| | |
|---|---|
| | **dod a'r unedau hyn yn ôl i ddefnydd yn ystod 13/14 oherwydd bod amodau'r grant yn caniatáu hyd at 6 mis i berchnogion y tai wneud gwelliannau a thelir y grant ar gwblhau'r gwaith.** |

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **CC2 - LLEIHAU EFFAITH TLODI AC AMDDIFADEDD** |
| **Newid** | **Dileu Canlyniad:** ***Mwy o unigolion a chymunedau bregus yn derbyn cefnogaeth briodol i symud ymlaen.***<br><br>**Dileu Gweithgaredd:** ***Gosod y sail ar gyfer sefydlu trefn gydlynus i ddarparu cefnogaeth i unigolion a chymunedau bregus, ynghyd â chynlluniau cymdeithasol priodol i gynorthwyo pobl i gael dau ben llinyn ynghyd.*** |
| **Rheswm Dros y Newid** | **Mae lleihau effaith tlodi ac amddifadedd yn parhau'n flaenoriaeth. Ond, mae angen rhoi mwy o bwyslais eleni ar ymateb i'r agenda diwygio lles oherwydd effaith uniongyrchol y newidiadau hyn ar rai o drigolion y Sir.** |

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **CC4 - HYBU BALCHDER A CHYFRIFOLDEB CYMUNEDOL** |
| **Newid** | **Dileu'r cynnig cyflawni:** ***Cynnal peilot balchder cymunedol mewn ardaloedd er mwyn dysgu beth sydd yn gweithio*****.** |
| **Rheswm Dros y Newid** | **Mae'r Panel Cyflawni wedi penderfynu y dylid dileu'r prosiect gan fod pwyslais y prosiect bellach ar ganfod dulliau o leihau galw a dibyniaeth y cyhoedd ar wasanaethau'r Cyngor drwy hyrwyddo gweithgareddau cymunedol yn hytrach na'r elfen amgylcheddol o'r peilot balchder cymunedol.** |

Nododd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams iddo atal ei bleidlais gan na allai gefnogi'r cynnig hyd oni fo'n hysbys iddo beth yw cynlluniau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr parthed yr arian maent wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynorthwyo'r Cyngor gyda gofal cartref. Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd ei fod yn siŵr y byddai'r Aelod Cabinet yn codi'r mater gyda'r Bwrdd Iechyd.

**8. TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau adroddiad yn gofyn am gadarnhad ffurfiol am 2014/15 ac wedi hynny o'r penderfyniadau blaenorol i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau neu gynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif faterion a ganlyn:-

(i) Holwyd faint o ail-gartrefi sydd yng Ngwynedd, a mewn faint o ail-gartrefi mae un o bâr priod yn honni eu bod yn meddiannu'n barhaus fel person sengl? Addawodd y Pennaeth Cyllid i drafod gyda'r aelod.

(ii) Nodwyd mai'r broblem oedd bod pobl yn prynu tai, eu cofrestru fel busnes ac felly'n talu dim Treth Cyngor. Atebodd yr Aelod Cabinet Adnoddau ei fod yn llawn sylweddoli'r broblem a bod rhan 4.5 a 4.6 o'r adroddiad yn cyfeirio at y pwysau gwleidyddol sy'n cael ei roi ar y Llywodraeth i reoli / rhwystro trosglwyddiad ail gartrefi i dai gwyliau masnachol.

Nodwyd bod yna bobl yn gosod tai o'r fath am gyfnodau byr ac yn byw ynddynt eu hunain yn ddi-dreth am weddill y flwyddyn ac awgrymwyd sefydlu grŵp i edrych ar hyn mewn manylder. Mewn ymateb, nododd y Prif Weithredwr fod y Pwyllgor Craffu Corfforaethol eisoes wedi rhaglennu i graffu'r maes yma.

(iii) Nodwyd bod yr hyn sydd yn yr adroddiad yn iawn, ond beth sy'n peri pryder yw'r hyn sydd ddim yno, nid yn unig yn y maes yma, ond mewn meysydd eraill o waith y Cyngor. Cyfeiriwyd at y penderfyniadau diweddaraf ynglŷn â gwersylloedd carafanau, e.e. i ganiatáu i bobl fyw ynddynt drwy gydol y flwyddyn, a mynegwyd pryder bod hyn yn creu pentrefi o Saeson yng nghefn gwlad. 'Roedd canlyniadau'r Cyfrifiad wedi'u cyhoeddi eleni, ond nid oedd yn ymddangos bod unrhyw beth yn digwydd. Mynegwyd cefnogaeth i'r argymhelliad yn yr adroddiad, ond cam bychan oedd hyn, ac 'roedd angen bod yn ymwybodol o'r darlun yn ei gyfanrwydd.

Nodwyd bod nifer helaeth o'r aelodau yn bryderus ynglŷn â materion cynllunio ac awgrymwyd y dylent ddod ynghyd fel grŵp trawsbleidiol neu weithdy i drafod y mater.

(iv) Mynegwyd pryder ynglŷn â pha fath o neges y byddai codi 'premiwm' ar ail-gartrefi yn ei roi i ymwelwyr ac awgrymwyd y byddai gweithredu polisi o'r fath yn gwneud mwy o ddrwg nag o les. Awgrymwyd hefyd y gallai polisi o'r fath gosbi'r bobl anghywir, gan gynnwys rhai pobl leol, e.e. rhywun sy'n rhentu tŷ tra'n adnewyddu tŷ gwag ar gyfer symud i mewn iddo.

I'r gwrthwyneb, awgrymwyd, os gall person fforddio dau dŷ, yna gall fforddio talu dwy Dreth Cyngor hefyd.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Bod Cyngor Gwynedd ar gyfer 2014/15 yn caniatáu <u>DIM</u> disgownt dan Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i'r ddau ddosbarth o ail gartrefi (dosbarthiadau A a B) sydd wedi'u diffinio yn Rheoliadau Treth Cyngor (Dosbarth o Eiddo Penodedig) (Cymru) 1998.**

**(b) Bod Cyngor Gwynedd ar gyfer 2014/15 yn caniatáu <u>DIM</u> disgownt yng nghyswllt tai gwag (dosbarth C).**

## 9. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2014/15

Yn absenoldeb yr Aelod Cabinet Atal Tlodi, cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau adroddiad yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Lleol ar gyfer darparu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor o Ebrill 2014 ymlaen.

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad, eglurodd y Pennaeth Cyllid y derbyniwyd llythyr gan Lywodraeth Cymru ar 3 Rhagfyr yn datgan y bydd y rheoliadau a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 26 Tachwedd yn cael eu diweddaru, o ran ffigurau, gan reoliadau fydd yn cael eu trafod yn y Cynulliad ar 28 Ionawr, 2014. Gan fod rhaid mabwysiadu'r cynllun lleol erbyn 31 Ionawr, byddai'n anodd iawn i'r Cyngor weld y ffigurau terfynol cyn dod i benderfyniad ar y mater, ac er bod yna lefel o risg ynghlwm â hyn, 'roedd sylwedd y

cynllun yr un fath â llynedd ar sail y rheoliadau a fabwysiadwyd ar 26 Tachwedd, i'w diweddaru eto gan y rheoliadau fydd yn dilyn yn Ionawr. Gobeithid, gan hynny, fod cyflwyno'r mater i'r cyfarfod hwn yn arbed galw cyfarfod arbennig o'r Cyngor ym mis Ionawr.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Nodi 'Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Cyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013' ar gyfer 2014/15.**

**(b) Yn ddarostyngedig i ganlyniad yr ymgynghoriad cyfredol, i fabwysiadu'r darpariaethau o fewn y Rheoliadau uchod ynglŷn â'i Gynllun am y flwyddyn ariannol 2014/15 fel cynllun lleol y Cyngor wedi 01/04/2014, gyda'r amodau canlynol ynghylch yr elfennau disgresiwn yn gyson gyda threfn 2013/14.**

**(c) Gweithredu diystyrwch o 100% ar bensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gweithio fel ei gilydd.**

**(ch) Peidio cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r pedair wythnos safonol sydd yn y Cynllun Rhagnodedig.**

**(d) Peidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.**

**(dd) Lle'n briodol, bod y Cyngor yn dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Atal Tlodi, i wneud mân addasiadau i'r cynllun yn dilyn yr ymgynghoriad a rheoliadau Ionawr 2014 yn diweddaru'r ffigurau, ar yr amod na fydd yn newid sylwedd y cynllun.**

## 10. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – AMSERLEN DDIWYGIEDIG YN Y CYTUNDEB CYFLAWNI

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cynllunio adroddiad yn amlinellu'r amserlen adolygedig ar gyfer Cytundeb Cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, er mwyn cael cymeradwyaeth y Cyngor cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau neu gynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif faterion a ganlyn:-

(i) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â pha ddylanwad sydd gan gynghorwyr o fewn y cynllun, cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at y gyfres o seminarau a drefnwyd ar gyfer aelodau gan egluro fod mewnbwn y cynghorwyr i'r seminarau hynny yn cael ei gyfeirio ymlaen i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, oedd â chynrychiolaeth o bob grŵp gwleidyddol. Pwysleisiodd hefyd nad y Cabinet fydd yn penderfynu ar gynnwys y Cynllun terfynol, ond y Cyngor llawn, gan mai i hwnnw y bydd y Cynllun ôl-Ymchwiliad Cyhoeddus yn cael ei gyflwyno i gael ei fabwysiadu neu beidio.

Mynegwyd siomedigaeth bod cyn lleied o aelodau wedi dod i'r seminar yng Nganllwyd ac ategodd yr Aelod Cabinet y sylw hwn gan bwysleisio mai dyma gyfle'r aelodau i ddylanwadu ar y polisi.

(ii) Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet, petai cynghorydd sir neu gynghorydd cymuned yn cyflwyno sylwadau yn erbyn cynnwys tir o fewn y cynllun yn ystod y cyfnod gwneud sylwadau ar ôl y cylch seminarau, y byddai ei sylw yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniad ar addasrwydd y safle.

(iii) Nodwyd bod yr hyn sy'n digwydd ym Môn yn effeithio ar Wynedd, a mynegwyd pryder ynglŷn â'r miloedd o dai sydd ar y gweill yno. Nodwyd bod Wylfa B ar y gorwel, ac yn hytrach na chynnig gwaith i bobl leol, byddai hyn yn tynnu miloedd o

bobl o'r tu allan i mewn i'r ardal. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet fod y pryder yma wedi'i nodi gan y Cyngor.

(iv) Gan gyfeirio at amserlen y cynllun, mynegwyd pryder bod dwy flynedd arall o ddiffyg arweiniad o safbwynt maint tyrbeini gwynt yn mynd i arwain at lanast' mawr yn yr ardaloedd. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet fod Gwynedd mewn sefyllfa ffodus gan nad oedd ei Gynllun Datblygu Unedol ond ychydig flynyddoedd oed a bod hwnnw'n cynnwys polisïau clir i ddelio gyda'r math yma o ddatblygu.`

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig a ganlyn ar gyfer y Cytundeb Cyflawni.**

| **Cyfnod yn y broses baratoi** | | **Amserlen adolygedig** |
|---|---|---|
| **1.** | **Paratoi a chyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni terfynol *(Rheoliad 5 - 10)*** | **Ionawr i Dachwedd 2011** |
| **2.** | **Adolygu a datblygu'r sail o dystiolaeth** | **Gorffennaf 2010 - Hydref 2012** |
| **3.** | **Cyfranogi Cyn-adnau – paratoi'r dogfennau cyn-adnau fydd yn rhoi amlinelliad o'r amcanion allweddol a'r hoff strategaeth *(Rheoliad 14).* Nid drafft llawn o'r CDLl ar y Cyd fydd hwn** | **Ionawr 2011 - Hydref 2012** |
| **4.** | **Ymgynghori Cyn-adnau – cyfnod o 6 wythnos *(Rheoliad 15).* Ymgynghori ffurfiol ar y dogfennau cyn-adnau a'r adroddiad arfarniad o gynaliadwyedd** | **Mai - Mehefin 2013** |
| **5.** | **Cyfranogi - datblygu ymhellach y sail o dystiolaeth a pharatoi'r CDLl ar y Cyd Adnau (cynllun draft llawn) sydd wedi'i seilio ar y sail o dystiolaeth, yn cynnwys yr ymateb i'r dogfennau cyn-adnau** | **Gorffennaf 2013 - Mawrth 2014** |
| **6.** | **Rhoi'r CDLl ar y Cyd a'r dogfennau'n gysylltiedig gydag ef ar adnau – cyfnod ymgynghori o 6 wythnos *(Rheoliad 17)*** | **Mai - Mehefin 2014** |
| | | |
| **7.** | **Ystyried sylwadau am y CDLl ar y Cyd Adnau *(Rheoliadau 18 ac 19)*** | **Gorffennaf 2014 - Ionawr 2015** |
| **8.** | **Cyhoeddi sylwadau ar safleoedd amgen, ymgynghori ar y rheiny – cyfnod o 6 wythnos *(Rheoliadau 20 a 21)*** | **Medi - Hydref 2014** |
| **9.** | **Cyflwyno'r CDLl ar y Cyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer Archwilio *(Rheoliad 22)*** | **Chwefror 2015** |
| **10.** | **Archwilio Cyhoeddus Annibynnol *(Rheoliad 23)*** | **Mehefin 2015** |

| | | |
|---|---|---|
| **11.** | **Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd *(Rheoliad 24)*** | **Mawrth 2016** |
| **12.** | **Mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd *(Rheoliad 25)*** | **Mai 2016** |
| **13.** | **Monitro ac Adolygu** | **Adroddiad blynyddol** |

## 11. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL RHIANT CORFFORAETHOL GWYNEDD

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc adroddiad blynyddol 2012/13 ynghyd â rhaglen waith 2013/14 y Panel Rhiant Corfforaethol.

Pwysleisiodd rôl a chyfrifoldebau'r aelodau fel rhieni corfforaethol gan eu hannog i ddod i'r sesiwn hyfforddiant a drefnwyd yng Nghlwb Rygbi Porthmadog ar 8 Ionawr, 2014. Nododd hefyd fod yna fwriad i gynnal sesiynau hyfforddi pellach yn ystod y Fforymau Ardal. Yna diolchodd i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau am roi sylw manwl i'r adroddiad blynyddol gan nodi y byddai'r pwyntiau a godwyd yn cael eu cyfeirio i sylw'r Panel.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau neu gynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif faterion a ganlyn:-

(i) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â goblygiadau'r cynllun peilot i ganiatáu i bobl ifanc aros gyda rhieni maeth ar ôl 18 oed, nododd Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol mai cynllun gwirfoddol oedd hwn, ac mai mater ydoedd o siarad gyda'r plentyn, addasu, gweld beth yw effaith hynny a gwneud adolygiad o'r newid yma.

(ii) Cyfeiriwyd at y sylw yn yr adroddiad ei bod yn anodd i bobl ifanc sydd wedi gadael gofal gysylltu â'r Gwasanaeth ar ôl oriau swyddfa, a holwyd sut y gellid gwneud pethau'n haws iddynt. Mewn ymateb, eglurodd yr Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc fod camau wedi'u cymryd ers i'r pwynt yma gael ei godi a chadarnhaodd fod cefnogaeth 24 awr ar gael bellach ar gyfer y bobl ifanc hyn.

(iii) Nodwyd bod y Llywodraeth yn Lloegr wedi neilltuo £50m er mwyn caniatáu i bobl ifanc aros gyda'u rhieni maeth hyd 21 oed a holwyd beth oedd yn mynd i ddigwydd yng Nghymru. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol na chredai fod yna fwriad i Gymru fynd i lawr yr un lôn â Lloegr ar hyn o bryd, a byddai'n codi hyn yn y grwpiau proffesiynol.

Nodwyd na ddymunid gweld Lloegr yn mynd ar wahân i Gymru gyda hyn oherwydd bod gwir angen edrych ar ôl pobl ifanc rhwng 18 a 21 oed a holwyd a fyddai'n bosib' codi hyn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mewn ymateb, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at y gwasanaethau ôl ofal sy'n cael eu cynnig gan y Cyngor i'r bobl ifanc hyn.

Gofynnwyd am adroddiad ar hyn i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau. Atebodd yr Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc y gellid trafod y mater yng nghyfarfod nesaf y Panel Rhiant Corfforaethol, gan ystyried lle i lobio ar lefel genedlaethol a dod ag adroddiad yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau.

(iv) Nododd rhai aelodau nad oeddent wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r hyfforddiant yn Ionawr. Nododd yr Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc y byddai'n edrych i mewn i hynny.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r rhaglen waith sydd ynghlwm iddo.**

## 12. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn argymell dyraniad seddau ar bwyllgorau'r Cyngor a chyrff allanol yn sgil derbyn rhybudd nad yw'r Cynghorydd John Brynmor Hughes bellach yn aelod unigol a'i fod wedi symud i'r Grŵp Annibynnol.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu dyraniad seddau ar bwyllgorau'r Cyngor yn unol â'r tabl isod:-**

**PWYLLGORAU CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 | |
| Cymunedau | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 | |
| Gwasanaethau | 9 | 4 | 4 | 1 | | |
| Archwilio | 9 | 5 | 3 | 1 | | 0 |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democratiaeth | 7 | 4 | 3 | 1 | | | |
| Cynllunio | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 | | |
| Trwyddedu Canolog | 7 | 4 | 4 | 0 | | | |
| Iaith | 8 | 4 | 3 | | | | |
| Penodi Prif Swyddogion | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 | | |
| Apelau Cyflogaeth | 4 | 1 | 1 | 1 | | | |
| Nifer y seddau | 76 | 37 | 28 | 8 | 4 | 1 | 154 |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 3 | 2 | 1 | | 1 | |
| CYSAG | 3 | 2 | 2 | | | |
| Cydbwyllgor | 6 | 2 | 2 | 1 | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ymgynghorol Lleol** | | | | | | | |
| **Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig** | **4** | **2** | **1** | | | | |
| **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd** | **4 (3 sedd ac un eilydd)** | **2** | **1** | **1** | | **0** | |
| **Cyfanswm y Seddau** | **96** | **47** | **36** | **10** | **5** | **0** | **194** |

**13. RHYBUDD O GYNNIG**

(a) Cyflwynwyd ymateb gan Dîm Busnes y Llywodraeth mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Eryl Jones-Williams i'r cyfarfod diwethaf yn galw am Brifysgol Feddygol yng Ngogledd Cymru.

(b) Adroddwyd y derbyniwyd rhybudd o gynnig, yn unol â Rheol Gweithdrefn 17, ynghyd â rhybudd trefniadaethol, yn unol â Rheol Gweithdrefn 17(12), gan y Cynghorydd Dilwyn Morgan, i drafod y cynnig canlynol yn y Cyngor llawn, yn hytrach na'i gyfeirio i bwyllgor.

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**"Gwrthwyneba Cyngor Gwynedd y dreth llofftydd a weithredir gan Lywodraeth San Steffan. Nodwn yr effaith mae'r polisi niweidiol hwn yn cael ar nifer o drigolion Gwynedd gan daro'r rhai mwyaf anghenus yn ein cymunedau. Nodwn hefyd y gwaith da sydd yn digwydd o fewn y sir i gynorthwyo tenantiaid sydd yn wynebu anawsterau yn sgil y dreth llofftydd. Gofynnwn i'r Cyngor annog ein partneriaid y landlordiaid cymdeithasol i wneud pob ymdrech i gynorthwyo a chefnogi tenantiaid fel na fydd neb yn colli cartref fel canlyniad i oblygiadau'r dreth llofftydd. Pwyswn hefyd am ddatganoli'r maes lles i Gymru er mwyn sicrhau gweithredu polisïau yn unol â dyheadau a gofynion pobl Cymru."**

Gofynnodd aelod a fyddai modd iddi gynnig y rhybudd o gynnig canlynol i Gyngor Rhondda Cynon Taf fel gwelliant, gan gyfeirio at landlordiaid tai cymdeithasol yng Ngwynedd, yn hytrach na Rhondda Cynon Taf:-

**"Mae'r Cyngor hwn yn gresynu wrth anghyfiawnder y dreth ystafell wely. O ganlyniad, mae'r Cyngor hwn yn hynod bryderus am ei heffaith ar iechyd a lles y rhai sydd wedi dioddef o achos newid anghyfiawn gan y llywodraeth, sy'n condemnio pobl, mewn budd-dal tai. Mewn ymgais i gymryd camau i liniaru effaith waethaf rheoliadau'r dreth ystafell wely, bydd y Cyngor hwn yn ymrwymo i gyflwyno achos swyddogol i landlordiaid tai cymdeithasol sy'n gweithredu yn Rhondda Cynon Taf i beidio â throi tenantiaid allan o eiddo oherwydd ôl-ddyledion rhent sy'n cronni o ganlyniad i'r dreth ystafell wely.**

**Hyd nes y bydd y dreth ystafell wely yn cael ei diddymu, mae'r Cyngor hwn yn ymrwymo'i hun ymhellach i gyflwyno achos i Lywodraeth Cymru i gyhoeddi canllaw ar gyfer atal yr un achosion o droi pobl allan o eiddo."**

Eglurodd y byddai mabwysiadu'r cynnig hwn yn dangos bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd ar draws y rhaniad gwleidyddol i sicrhau nad yw pobl yn cael eu gorfodi i adael eu cartrefi oherwydd y dreth llofftydd.

Nododd cynigydd y cynnig gwreiddiol, er yn llwyr gytuno â neges cynnig Rhondda Cynon Taf, ei fod o'r farn bod modd, trwy ei gynnig ef, gefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan yr aelodau seneddol a'r aelodau cynulliad, yn enwedig yn y Gogledd, yn cynnal y drafodaeth ynghylch y mater hwn.

Nodwyd nad oedd neb yn gwrthwynebu'r cynnig gwreiddiol fel y cyfryw, ond bod angen ei gryfhau, ac awgrymwyd newid y cyfeiriad at '*annog ein partneriaid'* i ddarllen '*mynnwn fod ein partneriaid'*.

Cytunodd cynigydd y cynnig gwreiddiol i ddiwygio'r cynnig ar y llinellau yma gyda chydsyniad y Cyngor.

Pleidleisiwyd ar y cynnig diwygiedig, ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD derbyn y cynnig isod:-**

**"Gwrthwyneba Cyngor Gwynedd y dreth llofftydd a weithredir gan Lywodraeth San Steffan. Nodwn yr effaith mae'r polisi niweidiol hwn yn cael ar nifer o drigolion Gwynedd gan daro'r rhai mwyaf anghenus yn ein cymunedau. Nodwn hefyd y gwaith da sydd yn digwydd o fewn y sir i gynorthwyo tenantiaid sydd yn wynebu anawsterau yn sgil y dreth llofftydd. Mynnwn fod ein partneriaid y landlordiaid cymdeithasol yn gwneud pob ymdrech i gynorthwyo a chefnogi tenantiaid fel na fydd neb yn colli cartref fel canlyniad i oblygiadau'r dreth llofftydd. Pwyswn hefyd am ddatganoli'r maes lles i Gymru er mwyn sicrhau gweithredu polisïau yn unol â dyheadau a gofynion pobl Cymru."**

Nododd y Cadeirydd na chynhelid cyfarfod o'r Cyngor ar 23 Ionawr, 2014 gan fod Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor 2014/15 wedi ei gyflwyno i'r cyfarfod hwn. Cynhelid cyfarfod nesaf y Cyngor ar 6 Mawrth.

Dymunwyd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 3.45pm.